

Gŵyl Llanw Cricieth Ebrill 6–10

Bydd cyfle i addoli a dysgu am y Ffydd yn yr ŵyl flynyddol hon sy'n cael ei chynnal yn y Gogledd am y tro cyntaf eleni, yng Nghricieth. Mae cannoedd o bobl wedi mwynhau'r ŵyl ers iddi gychwyn tua 6 blynedd yn ôl.

Dechrau nos Lun, Ebrill 6 gyda Dathliad a neges gan Rhys Llwyd, Caernarfon.

O ddydd Mawrth hyd ddydd Iau, ceir anerchiadau yn y bore gan Rhodri Glyn, Llansannan. Bydd siaradwyr gwahanol yn y dathliadau bob nos. Bydd gwahanol weithgareddau bob pwn.

Manylion llawn yn www.llanw.org

Mae croeso i bobl fynd i Llanw ar gyfer un neu fwy o'r cyfarfodydd.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Gwener y Groglith: Oedfa Gymun am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch.

Sul y Pasg, Ebrill 5: Y Gweinidog am 10.00 o'r gloch a'r Parchg Dafydd Ll Hughes am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Gwener y Groglith: Oedfa Gymun am 10.00 o'r gloch.
Sul y Pasg, Ebrill 5: Oedfa'r Pasg am 10.00 o'r gloch a'r Parchg Eifion W Williams am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Sul y Pasg, Ebrill 5: Y Gweinidog am 2.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ebrill 4: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Sul y Pasg, Ebrill 5: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir gan y Parchg R O Jones, Gaerwen am 2.00 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Mawrth 30: Cynhelir y 'Dosbarth Gwau' yn y festri am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Ebrill 3: Cynhelir 'Dwylo Pysur' am 6.30 o'r gloch.

Sul y Pasg, Ebrill 5: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Gweinidog am 5.00 o'r gloch (Oedfa Gymun).

CYNLLUN EFE

Dydd Sadwrn, Ebrill 4: Pasg yn y Parc - yng Nglynllifon. 10.30–1.00 o'r gloch. Diwrnod arbennig i deuluoedd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 29 (Sul y Blodau)

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Ebrill 5 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Hughes

Ebrill 12

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Elwyn Richards

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 29 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Mr John Hughes
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 5 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Oedfa
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Ebrill 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

germanwings

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 631: Sul y Blodau, 29 Mawrth, 2015

Gorchfygwr drygioni

Mae rhai pethau'n gwbl anhygoel, ac un o'r digwyddiadau hynny oedd tranc awyren Airbus *germanwings* yn yr Alpau yn Ffrainc ddydd Mawrth. O fewn diwrnod, trodd yr ofnau am ddamwain neu ymosodiad terfysgol yn hunllef y sylweddoliad fod Andreas Lubitz, un o'r ddau beilot, wedi hedfan yr awyren yn fwriadol i'r mynydd gan ei ladd ei hunan a chant a hanner o bobl eraill ar amrantiad. Ers hynny, clywyd llawer amdano, a'r cwestiwn na ellir ei ateb yw pam y byddai dyn yn cyflawni gweithred mor erchyll. Mae'n anodd meddwl y bydd unrhyw beth a ddaw i'r amlwg am gefndir a chymeriad a hanes Andreas Lubitz yn medru rhoi esboniad digonol am yr hyn a ddigwyddodd. Mae rhai pethau na fedrwn eu deall.

Yn naturiol, mae'r cydymdeimlad heddiw â theuluoedd y bobl a laddwyd. Bydd miloedd lawer yn gweddio dros y teuluoedd hynny a thros bobl yr ardal gyfagos i'r man y digwyddodd y cyfan, yn cynnwys y bobl sy'n gorfod gwneud y gwaith digalon o chwilio am y cyrff yng nghanol yr holl ddifrod. Roedd yn dda clywed yn ystod yr wythnos hefyd rywun yn sôn am yr angen i gofio a gweddio dros rieni Andreas Lubitz yn eu poen a'u dryswch a'u colled. Os deallais yn iawn, roedd y dyn a glywais yn galw am hynny wedi colli mab yn y trychineb. Mae'n anodd dychmygu eu poen hwythau heddiw. Gweddiwn dros bawb a ddiodeffodd mewn unrhyw ffordd oherwydd y trasedi diweddaraf hwn yn Ffrainc.

Roedd popeth yn iawn fore Mawrth. Neu felly yr oedd yn ymddangos i'r bobl oedd yn cydweithio â Lubitz. Ond trodd y cwbl yn fwy na chwerw. Roedd yn ymddangos fod popeth yn iawn hefyd wrth i Iesu farchogaeth i Jerwsalem ar gefn asyn. Ond trodd pethau'n fwy na chwerw yno hefyd wedi i Jwdas Iscariot benderfynu ei fradychu i'r bobl a oedd am ei ladd. Diflannodd cynnwrf llawen Sul y Blodau'n fuan iawn.

Derbyniodd Jwdas ddeg darn arian ar hugain yn dâl am fradychu Iesu. Ond nid yw'r trachwant am arian ynddo'i hun yn esbonio pam y gwnaeth Jwdas hyn. Roedd mwy i'r peth na hynny. Sut allai'r dyn fradychu ei gyfaill? Sut allai droi yn erbyn ei arweinydd a'i athro? Bron na ddywedwn eto fod yna bethau na fedrwn eu deall.

Ond yn achos Jwdas mae yna esboniad ac fe geir hwnnw gan Luc: 'Ac aeth Satan i mewn i Jwdas' (Luc 22:3). Rhoddodd Jwdas le i Satan, ac roedd canlyniadau dychrynlyd i hynny. Yn y pen draw, gwaith yr Un Drwg yw pob gweithred ddrwg a wneir gan bobl yn y byd hwn. Mae Satan wrth ei waith o hyd yn creu llanast a difrod. Ond mor bwysig yw cofio bod Teyrnas Dduw yn gryfach na theyrnas yr Un Drwg, a bod yr un a farchogai'r asyn ac a fu'n crogi ar groes yn gryfach na Satan. Mewn byd o ddiinstr, mor braf yw cofio a hyn gan ymddiried yn yr Un sydd wedi gorchfygu pob drygioni.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (P), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Cymun y Groglith

Cynhelir Oedfa Gymun y Groglith yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener, Ebrill 3. Croeso i bawb.

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams.

Mae'r Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg W R Williams.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Tecwyn Roberts

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Hughes.

Oedfa Sefydli

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n trefnu ar gyfer yr Oedfa Sefydli a gynhaliwyd yng nghapel Carmel, Llanllechid nos Sul diwethaf, Mawrth 22. Roedd yn braf iawn gweld cymaint ohonoch yno, yn aelodau Carmel a Bethlehem, aelodau eglwys eraill yr Ofalaeth, a chyfeillion a oedd wedi ymuno â ni ar gyfer yr oedfa. Tipyn o syndod oedd deall bod eglwys Salem, Caernarfon wedi penderfynu peidio â chynnal oedfa er mwyn i rai o'r aelodau ddod atom. Gwerthfawrogwn y gefnogaeth a gafwyd gan bawb a oedd yno a chan eraill a fethodd â dod yno ond a anfonodd eu dymuniadau gorau i ni.

Cafwyd oedfa fendithiol iawn. Cynweinidog Carmel a Bethlehem, y Parchg Geraint Hughes, oedd yn llywyddu'r oedfa ac yn arwain defod y sefydlu, a chyfeiriodd at y ffaith anarferol mai fi oedd wedi gwneud y gwaith hwnnw pan gafodd ef ei sefydlu'n weinidog i'r ddwy eglwys ynghyd ag eglwys Jerusalem, Bethesda ar ddechrau ei weinidogaeth yn Nyffryn Ogwen. Go brin fod peth felly'n ddigwyddiad cyffredin iawn.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth, ac yn arbennig i'r Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni am y neges rymus yn ei bregeth a oedd yn seiliedig ar Eseaia 52:7. Soniodd am darddiad a chynnwys ac effaith y neges fawr y mae negesydd Duw yn ei chyhoeddi. Fe'n hatgoffwyd mai Duw sy'n teyrnasu a bod gennym Efengyl ogoneddus i'w chyhoeddi i'r byd.

Un peth anarferol arall am yr oedfa oedd cyflwyno i mi ffon gerdded a fu'n eiddo i Edward Stephen, neu Tany Marian, a fu'n weinidog yn Llanllechid yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ers hynny, mae'r ffon wedi ei rhoi yng ngofal pob un o weinidogion Carmel yn eu tro, ac mae'n siwr ei bod wedi atgoffa pob un ohonynt o'r ffaith eu bod yn rhan o waith Teyrnas Dduw sy'n para o oes i oes.

Wedi'r oedfa, cawsom fwynhau croeso arbennig a lluniaeth yn y festri. Roedd yn braf iawn cael sgwrs wrth y byrddau bwyd. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n paratoi'r lluniaeth ac yn ei weini.

Edrychwn ymlaen at gydweithio yng ngwaith yr Arglwydd yn yr eglwys ac yn yr Ofalaeth. Soniodd mwy nag un ohonoch am y posibilrwydd o gynnal ambell oedfa gyda'n gilydd, ac yn sicr mae'n awgrym y gallwn ei ystyried at y dyfodol.

Bedydd

Yn ystod yr oedfa yn Capel Coch fore Sul diwethaf, Mawrth 22, bedyddiwyd Tirion a Lliwedd, plant Eleri a Llifon Foulkes, 7 Rhos y Faenol, Llanberis. Andrew Settatree oedd yn arwain yr Oedfa Deulu a minnau'n gweinyddu'r bedydd. Roedd yn braf cael croesawu aelodau'r teulu atom, a chael cyfle ar ddiwedd yr oedfa i sgwrsio dros baned. Boed bendith Duw amynt fel teulu.

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd ddydd Sul, Mai 15-17.

Cewch ragor o fanylion yn fuan. Edrychwn ymlaen at amser da yno eto eleni.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd fy mam, Mrs Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis yn Capel Coch ddydd Gwener, Mawrth 27. Roeddwn i'n arwain yr oedfa, a chefais gymorth dau o'm ffrindiau, sef y Parchg Robert O Roberts, Morfa Nefyn ac Euros W Jones, Llangefni. Diolch yn fawr i'r ddau ohonynt ac i Mrs Bethan Holding, yr organyddes.

Bu Mam yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn Nant Padarn ar hyd y blynyddoedd, a deuai'n ffyddlon i'r oedfaon yn Capel Coch wedi hynny nes i'w hiechyd dorri. Yn naturiol, bum yn sôn amdani fel mam, nain a hen nain, chwaer a modryb arbennig i ni'r teulu.

Diolch yn fawr i bawb ohonoch a ddaeth i'r oedfa ddydd Gwener. Roeddwn mor ddiolchgar wrth weld bod yno rywun neu rywrai o bob un o eglwysy'r Ofalaeth, heb sôn am yr holl deulu estynedig a chyfeillion a chymdogion a oedd yno'n gefn i ni fel teulu.

Diolch yn fawr iawn ar ran Dad, Jane, Ted a Janet, a Falmai a minnau a'r holl deulu am bob cydymdeimlad a estynwyd yr wythnos ddiwethaf. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd er côf am Mam tuag at Uned Clefyd Parkinson Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Pasg yn y Parc Diwrnod arbennig i deuluoedd ym Mharc Glynllifon ddydd Sadwrn nesaf, Ebrill 4

Gweithgareddau amrywiol o 10.30 y bore hyd 1.00 y pwnn yn cynnwys Helfa Drysor, Crefft y Pasg a chyfle i ddysgu am wir ystyr y Pasg. Pris y diwrnod fydd £2 i oedolion a £1 i blant.

Rhagor o fanylion gan Andrew Settatree: gosedcoeden@hotmail.com